Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Meddygfa Ffordd St Isan
# 5 Hydref 2021

Dyddiad cyhoeddi: 9 Tachwedd 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80391-250-9



© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfa Ffordd St Isan, Caerdydd fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae pedwar meddyg teulu yn bartneriaid ym mhractis Meddygfa Ffordd St Isan ac mae'n cyflogi dau feddyg teulu, dwy nyrs bractis a fferyllydd. Caiff y practis ei gefnogi gan reolwr practis a thîm derbynfa a gweinyddu. Yn ogystal ag ymgyngoriadau rheolaidd, mae'r practis yn darparu amrywiaeth o glinigau i gleifion â chyflyrau iechyd cronig.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal y GIG 2015. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Practis ar 5 Hydref a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sydd ar waith i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol a sensitif?

- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gwasanaethau y tu allan i oriau ar hyn o bryd?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiad risg amgylcheddol diweddaraf
- Y weithdrefn brysbennu
- Polisïau a gweithdrefnau COVID-19

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd asesiad risg y practis yn amlinellu amrywiaeth o gamau roedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig er mwyn helpu i hyrwyddo amgylchedd diogel. Roedd y camau hyn yn cynnwys gosod sgriniau yn ardal y dderbynfa, cyfyngu ar gapasiti'r ystafell aros a gosod system fynediad ar y drysau a system intercom er mwyn helpu i amddiffyn y staff a'r cleifion.

Gwelsom fod y practis wedi rhoi systemau ar waith i ddarparu ymgyngoriadau rhithwir a gwasanaethau eraill i gleifion, megis ceisiadau am bresgripsiwn rheolaidd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym er bod hyn wedi gweithio'n effeithiol am gyfnod, fod y practis o'r farn bod rhai cleifion yn defnyddio'r system mewn ffyrdd anaddas. Er enghraifft, cyflwyno ceisiadau rhithwir yn ystod cyfnodau pan oedd y feddygfa ar gau, lle y gallai fod wedi angen sylw mwy amserol ar y broblem. Er gwaethaf ymdrechion i gyfyngu'r system, penderfynodd y practis y dylid dychwelyd at ymgyngoriadau ffôn a dulliau brysbennu er mwyn diwallu anghenion ei gleifion yn well.

Cafodd cyfleoedd ar gyfer apwyntiadau galw heibio eu hatal yn ystod y pandemig, gan ddefnyddio dull lle gofynnwyd i gleifion ffonio yn gyntaf a system brysbennu. Roedd hyn er mwyn sicrhau na fyddai cleifion yn dod i'r practis yn ddiangen. Dywedwyd wrthym fod y dewis o gael apwyntiadau wyneb-yn-wyneb wedi parhau ar gael i gleifion drwy gydol y pandemig, yn enwedig i'r rheini ag angen clinigol neu'r rheini a oedd yn agored i niwed ac na fyddent o bosibl yn gallu trefnu ymgyngoriadau rhithwir fel arall.

Mae'r practis yn darparu gwasanaeth estynedig[1] i gartref gofal lleol, y mae llawer o'i breswylwyr wedi'u cofrestru fel cleifion gyda'r practis. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod rowndiau wythnosol o'r wardiau wedi parhau drwy gydol pandemig a bod clinigydd wedi mynd i'r cartref gofal yn gynnar yn ystod y pandemig i sicrhau y gellid cynnal trafodaethau cynllunio gofal ymlaen llaw rhwng y preswylwyr a'u teuluoedd mewn ffordd gydweithredol a thosturiol.

Dywedwyd wrthym fod clinigau wedi cael eu hatal yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod wedi rheoli'r risg i gleifion â chyflyrau iechyd cronig mewn ffordd ystyrlon. Er enghraifft, gwelsom fod meddyginiaeth fitamin B12 wedi cael ei newid o bigiadau wyneb-yn-wyneb i bresgripsiynau meddyginiaeth drwy'r geg. Fel rhan o enghraifft arall, sefydlwyd cysylltiadau gweithio agos â chydweithwyr yn y bwrdd iechyd lleol i addasu ffurflenni cydsyniad er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion am y risgiau sy'n gysylltiedig â rhai triniaethau penodol a COVID-19, gan felly alluogi'r triniaethau i barhau.

Disgrifiodd y practis y broses a oedd ar waith ar gyfer brysbennu'r cleifion a chadarnhaodd rheolwr y practis fod staff y dderbynfa wedi cael hyfforddiant priodol. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael apwyntiad gyda'r gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol. Yn ystod ymgyngoriadau dros y ffôn, roedd meddygon teulu a fferyllwyr yn gyfrifol am drefnu apwyntiadau wyneb-yn-wyneb fel y bo'n briodol.

Ar adeg cynnal y gwiriad ansawdd, amlinellodd y practis sut roedd wedi ailddechrau llawer o'i wasanaethau a'i glinigau. Dywedwyd wrthym fod pob gwasanaeth estynedig wedi ailddechrau a bod hynny'n llawer cynharach na'r disgwyl ar gyfer llawer o'r gwasanaethau hyn. Nododd rheolwr y practis hefyd fod apwyntiadau wyneb-yn-wyneb rheolaidd wedi cynyddu a bod staff y dderbynfa bellach yn trefnu'r apwyntiadau hyn fel mater o drefn. Roedd cynlluniau ar y gweill i symud i system ar gyfer trefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn y dyfodol agos.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol i COVID-19

[1] Caiff gwasanaethau estynedig eu diffinio fel gwasanaethau meddygol sylfaenol ac eithrio gwasanaethau hanfodol, y mae'r bwrdd iechyd lleol wedi trefnu contract â'r practis i'w darparu.

- Yr asesiad risg rheoli heintiau diweddaraf
- Amserlenni ac archwiliadau glanhau
- Cofnodion hyfforddiant y staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd y practis amrywiaeth o gamau roedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig er mwyn helpu i hyrwyddo arferion atal a rheoli heintiau da. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio dodrefn gwahanol a thynnu pob carped cyn y pandemig, a oedd wedi helpu o ran gallu glanhau'n effeithiol. Gwelsom fod y gweithdrefnau glanhau wedi cael eu gwella, fod y staff a'r cleifion yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19 a bod sesiynau hyfforddi ymarferol wedi cael eu trefnu i'r staff.

Ar gyfer cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19, gwnaethom gadarnhau y gallai'r cleifion gael eu gwahanu'n ddiogel oddi wrth y staff a'r cleifion eraill. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau i hebrwng y claf i mewn i ystafell ymgynghori ddynodedig drwy fynedfa ar wahân i'r practis. Gwnaethom gadarnhau fod proses ar waith ar gyfer gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol, ac ar gyfer glanhau ac awyru'r amgylchedd rhwng cleifion.

Cawsom wybod bod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gael i bob aelod o'r staff. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y staff clinigol a'r staff anghlinigol wedi cael hyfforddiant ar sut i wisgo a diosg PPE yn gywir.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn ddiweddar a oedd yn briodol i'w rolau. Ychwanegodd y practis fod nifer o sesiynau ymarferol hefyd wedi cael eu cyflwyno gan y nyrs arweiniol er mwyn helpu'r staff yn ystod y pandemig. Nodwyd gennym fod y staff nyrsio hefyd wedi cwblhau hyfforddiant techneg ddigyffwrdd aseptig (ANTT)[2] er mwyn lleihau'r risg o heintiadau cyffredinol ymhellach.

Gwelsom fod polisi ac amserlen lanhau ar waith, a oedd wedi'u teilwra'n lleol yn briodol i ddiwallu anghenion y practis. Ategwyd hyn gan fanyleb lanhau i'r cwmni glanhau allanol ei dilyn ac archwiliad glanhau diweddar a gafodd sgôr uchel.

Dywedodd y practis wrthym fod ymweliadau yn y gymuned, naill ai â chartrefi cleifion neu gartrefi gofal, wedi parhau drwy gydol y pandemig. Gwnaethom gadarnhau fod trefniadau atal a rheoli heintiau wedi cael eu hystyried yn y weithdrefn a luniwyd gan y practis. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio bagiau o PPE ar gyfer achosion brys, trefniadau ar gyfer gwirio symptomau, profion llif unffordd rheolaidd a sicrhau bod trefniadau awyru digonol ar waith.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[2] Mae'r Dechneg Ddigyffwrdd Aseptig (ANTT) yn cyfeirio at y dechneg a'r rhagofalon a ddefnyddir yn ystod gweithdrefnau clinigol er mwyn amddiffyn y claf rhag heintiau drwy atal micro-organebau rhag cael eu trosglwyddo i'r claf o'r gweithiwr gofal iechyd, y cyfarpar neu'r amgylchedd

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Cofnodion cyfarfodydd y practis
- Hunanasesiad AGIC

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Mae'r practis yn rhan o Glwstwr Gogledd Caerdydd[3], lle gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio cefnogol gan y clwstwr. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y clwstwr wedi cyfarfod yn amlach drwy gydol y pandemig er mwyn rheoli risgiau a rhannu arferion gorau er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau. I ategu hyn, mae'r clwstwr yn cyflogi fferyllwyr, nyrsys gofal sylfaenol ar gyfer pobl hŷn a pharafeddyg i helpu ei weithlu a diwallu anghenion cleifion.

Nododd y practis fod y gydberthynas â'r bwrdd iechyd lleol wedi bod yn ardderchog drwy gydol y pandemig, gan nodi ei fod wedi bod yn ymatebol ac yn gefnogol drwy gydol y cyfnod. Dywedodd y practis wrthym ei fod wedi ymdopi'n dda â newidiadau i'r trefniadau mynediad ar gyfer gweithwyr gofal sylfaenol ac eilaidd proffesiynol ehangach, ond nodwyd gennym fod rhai newidiadau i'r llwybrau gofal eilaidd a'r rhestrau aros cynyddol ar gyfer gweithdrefnau dewisol yn rhoi pwysau ar y practis. Er gwaethaf hyn, nododd y practis ei fod wedi llwyddo i gadw mewn cysylltiad â'r bwrdd iechyd a'r arbenigeddau o'i fewn er mwyn rheoli'r risgiau i gleifion cystal â phosibl.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cwblhau Asesiad Risg COVID-19 Cymru Gyfan er mwyn asesu eu hamgylchiadau personol mewn perthynas â'r pandemig.

Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg ar gael i gleifion drwy un o'r partneriaid meddyg teulu. Mae llinell iaith ar gael i'r practis ei defnyddio ar gyfer cleifion ag anghenion ieithyddol eraill.

Nodwyd nifer ach o swyddi gwag ar adeg cynnal y gwiriad ansawdd. Fodd bynnag, roedd cynlluniau ar y gweill i recriwtio i'r swyddi hyn, gan gynnwys penodi meddyg teulu partner newydd yn ystod y misoedd nesaf.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[3] Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad:
Dyddiad y gweithgarwch:

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ni nodwyd unrhyw welliannau | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad: